# Ymgynghoriad Cynllun Blynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd 2023/24

CMA171con
CMA/2022/03

# Ymgynghoriad Cynllun Blynyddol Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Cyflwynwyd i Senedd y DU, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 13(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (fel y'i diwygiwyd gan adran 40(3) o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020)

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn general.enquiries@cma.gov.uk

ISBN 978-1-5286-3742-8

E02810474 12/22

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys 40% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

**Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi**

# Tudalen wybodaeth am yr Ymgynghoriad

## Cwmpas yr ymgynghoriad hwn

Bwriad yr ymgynghoriad yw rhoi cyfle i bartïon â buddiant roi barn a sylwadau ar Gynllun Blynyddol a meysydd ffocws arfaethedig yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer 2023/24, o fewn cyd-destun diben, uchelgais a blaenoriaethau tymor canolig arfaethedig y sefydliad ar gyfer y cyfnod nesaf o 3 blynedd.

## Cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad

Rydym yn croesawu safbwyntiau drwy e-bost neu drwy ddefnyddio'r ffurflen we ar dudalen we yr ymgynghoriad,
gan gyfeirio'n ddelfrydol at y cwestiynau canlynol:

> Beth yw eich barn ar flaenoriaethau tymor canolig arfaethedig y CMA ar gyfer y 3 blynedd nesaf?
> Beth yw eich barn ar feysydd ffocws arfaethedig y CMA ar gyfer 2023/24?
> Oes unrhyw faterion eraill y dylai'r CMA edrych arnynt yn eich barn chi?

## Hyd

15 Rhagfyr 2022 – 30 Ionawr 2023

## Sut i ymateb

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Gofynnwn i unrhyw sylwadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig drwy'r ffurflen we ar dudalen we yr ymgynghoriad neu drwy e-bost i general.enquiries@cma.gov.uk erbyn 30 Ionawr 2023 fan hwyraf.

Ar gyfer ymholiadau, e-bostiwch general.enquiries@cma.gov.uk.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â fersiwn derfynol o'r Cynllun Blynyddol, erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

## Cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio ag Egwyddorion Ymgynghori diweddaraf Swyddfa'r Cabinet.

Gellir dod o hyd i feini prawf Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet yn www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance.

## Diogelu data a chyfrinachedd

Noder y bydd unrhyw ddata personol a gyflenwch yn cael eu prosesu gennym yn unol â deddfwriaeth diogelu data.[1] Byddwn ond yn cadw ac yn defnyddio eich data personol at ddibenion ein gwaith (er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried eich ymateb) ac yna byddwn yn eu dileu'n ddiogel. Ni fyddwn yn rhannu eich data personol ag unrhyw drydydd parti. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r CMA yn prosesu data personol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd.[2]

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn. Bydd yn cynnwys rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd, ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill pobl.

Cyn cyhoeddi gwybodaeth, byddwn yn ystyried unrhyw gyfyngiadau y mae'r gyfraith yn eu gosod arnom. Os byddwch yn ystyried bod eich ymateb yn cynnwys gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol am ryw reswm arall, marciwch y wybodaeth sy'n fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol ac esboniwch pam.[3]

Noder y gallai gwybodaeth a data personol a gyflenwir i ni mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, fod yn destun ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.[4]

## Adborth ar yr ymgynghoriad hwn

Os ydych yn dymuno gwneud sylw ar y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn neu gwyno am y ffordd y'i cynhaliwyd, anfonwch e-bost i: general.enquiries@cma.gov.uk

Fred Houwen, Cyfarwyddwr Strategaeth, CMA

---

[1] Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, byddwch yn rhoi data personol i ni (er enghraifft, eich cyfeiriad e-bost). Data personol yw gwybodaeth am unigolyn byw y gellir ei defnyddio i adnabod yr unigolyn hwnnw.

[2] Mae'n cynnwys gwybodaeth am eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol, gan gynnwys sut i gysylltu â ni a sut i gwyno.

[3] Gweler Transparency and Disclosure: Statement of the CMA's policy and approach (CMA6).

[4] Mewn ymateb i'r ceisiadau hynny, byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaethoch am gyfrinachedd. Gweler CMA6 hefyd (gweler troednodyn 3 uchod) am ddull gweithredu'r CMA o ran ceisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

# Cynnwys

*Tudalen*

Tudalen wybodaeth am yr Ymgynghoriad ........ 5
Rhagair ........ 8
1. Y CMA ........ 10
2. Llunio CMA y dyfodol ........ 13
3. Diben ........ 15
4. Uchelgais ........ 17
5. Blaenoriaethau Tymor Canolig ........ 18
6. Meysydd Ffocws ar gyfer 2023-24 ........ 23
7. Adnoddau ac amser staff ........ 27
8. Rhestr termau ........ 30

## Rhagair

Mae'r CMA yn defnyddio dull gweithredu newydd i ymgynghori ar y Cynllun Blynyddol eleni.

Yn wahanol i'r gorffennol, rydym yn gosod ein Cynllun mewn dau gyfnod amser: ein huchelgais a'n blaenoriaethau tymor canolig ar gyfer y 3 blynedd nesaf, a'r meysydd allweddol y mae'r CMA yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y 12 mis nesaf.

I gyrraedd yno, rydym wedi cymryd cam yn ôl ac wedi gofyn rhai cwestiynau pwysig o'r newydd. Beth yw diben y CMA? Beth yw ein huchelgais - hynny yw, pa ganlyniadau rydym yn bwriadu eu cyflawni i'r rhai rydym yn eu gwasanaethu? A sut y dylai'r rhain ffurfio ein blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf a'n gweithgarwch yn y flwyddyn sydd i ddod?

Ers iddo gael ei sefydlu, mae'r CMA wedi hyrwyddo cystadleuaeth ac anghenion defnyddwyr. Dros y tair blynedd diwethaf, mae wedi sicrhau dros £20 o fuddiannau ariannol uniongyrchol i ddefnyddwyr am bob £1 o arian trethdalwyr sy'n cael ei wario. Nawr, wrth i ni wynebu newidiadau pellgyrhaeddol i'n hamgylchedd allanol a newidiadau yr un mor sylweddol i gyfrifoldebau a swyddogaethau'r CMA, mae'n briodol i ni ailystyried ein hamcanion strategol a sut y gallwn sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf i bobl, busnesau ac economi'r DU yn y blynyddoedd sydd i ddod.



Mae grymoedd macro yn ffurfio'r amgylchedd y mae pob un ohonom yn gweithredu ynddo, o'r cynnydd mewn costau byw i newid hinsawdd, ac mae disgwyl i'r rhain wneud gwaith y CMA hyd yn oed yn fwy hanfodol. Yn y cyfamser, mae datblygiad parhaus technolegau a modelau busnes newydd yn golygu bod yn rhaid i'r CMA ragweld sut y gallai marchnadoedd a sylfeini cystadleuaeth esblygu – a nodi'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd heddiw i sicrhau y bydd pobl yn parhau i gael bargen deg ac y bydd cystadleuaeth yn parhau i ffynnu yn y dyfodol.

Ar ôl i'r DU adael yr UE, mae'r CMA wedi derbyn cyfrifoldebau newydd ac wedi sefydlu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Swyddfa'r Farchnad Fewnol. Mae hefyd wedi sefydlu'r Uned Marchnadoedd Digidol, y disgwylir iddi fod yn gerbyd ar gyfer y gyfundrefn reoliadol ddigidol o blaid cystadleuaeth y mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo iddi, gan gyflwyno deddfwriaeth newydd yn ystod sesiwn gyfredol y senedd.



Ochr yn ochr â'r newid hwn, mae sefydliadau'n gwneud mwy o ddefnydd o ddata, technolegau digidol a deallusrwydd artiffisial, ac mae disgwyliadau cyflogeion yn parhau i esblygu. Yn yr un modd, mae'n rhaid i'r CMA addasu er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd a'n heffaith. Ac wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni reoli ein cyllideb yn ofalus, fel y mae cartrefi a busnesau ledled y DU yn gorfod ei wneud.

Nawr, gyda thîm arwain newydd, rydym yn ystyried y ffordd orau o ateb yr heriau sydd i ddod. Yn dilyn ein sgyrsiau yn ystod y misoedd diwethaf gyda sefydliadau defnyddwyr a thrydydd sector, sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau a buddsoddwyr, a chydweithwyr ledled y CMA, rydym yn hyderus bod y CMA mewn sefyllfa dda i ateb yr heriau hyn, a hynny oherwydd ansawdd ein pobl, trylwyrdeb eu gwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth, eu hymrwymiad i wneud y peth iawn a'u parodrwydd i ystyried syniadau newydd.  Mae'r cryfderau hyn wedi galluogi'r CMA i gyflwyno buddiannau sylweddol i ddefnyddwyr a busnesau trwy ystod o waith rheoli uno, gorfodi, rhwymedïau'r farchnad ac eiriolaeth mewn perthynas ag ystod eang o faterion a sectorau, o godi gormod am gyffuriau fferyllol i gontractau prydles annheg, gofal cymdeithasol plant i ardystiadau'r cyfryngau cymdeithasol, maglau tanysgrifio ac adolygiadau ar-lein ffug.



Yn y Cynllun drafft hwn, rydym yn amlinellu diben y CMA yn gyntaf – helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg – a sut mae'r diben hwn yn ffurfio ein huchelgais. Yn ail, rydym yn esbonio ein huchelgais yn nhermau'r canlyniadau rydym eisiau helpu i'w cyflawni dros y tymor canolig a'r hirdymor:

- gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg
- gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu
- gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy.

Yn drydydd, mae'r Cynllun Blynyddol drafft hwn yn mynd ati i amlinellu ein blaenoriaethau tymor canolig ar gyfer y tair blynedd nesaf a'n meysydd ffocws penodol arfaethedig ar gyfer 2023/24.

Mae'r ddau ohonom yn edrych ymlaen yn eiddgar at ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn ystod yr wythnosau nesaf i glywed eich barn ar y themâu yn ein Cynllun Blynyddol drafft. Gobeithio y byddwch yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac yn lleisio barn ar y ffordd orau i'r CMA gyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl, busnesau ac economi'r DU.

**Marcus Bokkerink**

**Cadeirydd**



**Sarah Cardell**

**Prif Weithredwr Dros Dro**



# 1. Y CMA

1.1 Mae'r CMA yn adran anweinidogol annibynnol o fewn Llywodraeth y DU a'r CMA yw prif awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr y DU. Rydym yn helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg.

1.2 Mae ein grymoedd yn deillio o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013[5] a chaiff ein gwaith ei oruchwylio gan Fwrdd a'i arwain gan y Prif Weithredwr a'r uwch-dîm. Gwneir penderfyniadau mewn rhai ymchwiliadau gan aelodau annibynnol o Banel y CMA.

1.3 Ein prif swyddogaethau yw:

- Ymchwilio i gynlluniau uno a gallai leihau cystadleuaeth yn sylweddol. Os bydd cynllun uno yn debygol o leihau cystadleuaeth yn sylweddol, gall y CMA ei atal neu osod rhwymedïau er mwyn mynd i'r afael â phryderon o'r fath.
- Ymchwilio i fusnesau er mwyn nodi a ydynt wedi torri cyfraith cystadleuaeth y DU ac, os felly, roi terfyn ar y fath achosion o dor-cyfraith a'u hatal rhag codi, gan gynnwys drwy ddirwyo busnesau a cheisio sicrhau bod cyfarwyddwyr y cwmnïau dan sylw yn cael eu datgymhwyso, yn ogystal ag erlid unigolion sy'n cyflawni trosedd y cartel anghyfreithlon.
- Gorfodi ystod o ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr, gan gynnwys mewn achosion lle mae triniaeth annheg yn erbyn defnyddwyr neu'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth wneud dewisiadau yn awgrymu bod problem systemig yn y farchnad.
- Cynnal astudiaethau neu ymchwiliadau neu wneud gwaith arall i farchnadoedd penodol lle yr amheuir bod problemau o ran cystadleuaeth a defnyddwyr. Gall y CMA gymryd camau – ac argymell bod camau yn cael eu cymryd gan eraill – mewn marchnadoedd lle mae'n bosibl nad yw cystadleuaeth yn gweithio'n dda.
- Rhoi cyngor i lunwyr polisi a Gweinidogion am ein swyddogaethau, gan gynnwys sut y gallant lunio polisi a'i roi ar waith mewn ffordd sy'n achub ar fanteision cystadleuaeth ac sy'n diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr.

---

[5] Caiff grymoedd Swyddfa'r Farchnad Fewnol, a lansiwyd yn swyddogol ar 21 Medi 2021, eu hamlinellu yn Neddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Mae gan y CMA hefyd rymoedd sy'n gysylltiedig â'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, sy'n deillio o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

- Rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl a busnesau am hawliau a rhwymedigaethau o dan y gyfraith cystadleuaeth a'r gyfraith defnyddwyr.
- Hyrwyddo cystadleuaeth gryfach yn y diwydiannau a reoleiddir (nwy, trydan, dŵr, hedfanaeth, rheilffyrdd, cyfathrebu ac iechyd), gan weithio gyda rheoleiddwyr y sectorau.
- Cynnal apeliadau ac atgyfeiriadau rheoleiddiol mewn perthynas â systemau rheoli prisiau, telerau trwyddedau neu drefniadau rheoleiddio eraill o dan ddeddfwriaeth sector-benodol.
- Rhoi cyngor technegol, adrodd a monitro mewn perthynas â marchnad fewnol y DU, trwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol.
- O 4 Ionawr 2023 ymlaen, rhoi cyngor, adrodd a monitro mewn perthynas â chymorthdaliadau'r llywodraeth, drwy'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

1.4 Yn Natganiad Hydref 2022, ymrwymodd Llywodraeth y DU i gyflwyno deddfwriaeth i roi pwerau i'r CMA weithredu cyfundrefn statudol o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol trwy ei Uned Marchnadoedd Digidol. Mae'r Uned Marchnadoedd Digidol, sydd wrthi'n cefnogi ein gwaith ar draws marchnadoedd digidol gan ddefnyddio pwerau presennol y CMA, eisoes wedi dechrau gweithio i weithredu'r gyfundrefn newydd.

1.5 Byddwn hefyd yn paratoi ar gyfer pwerau newydd fel rhan o'r gyfraith diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig, gan gynnwys newid i fodel gorfodi gweinyddol, gyda phwerau dirwyo, ar gyfer diogelu defnyddwyr.

1.6 Rydym yn gweithio mewn ffordd integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddewis yr adnoddau a fydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol, yn ein barn ni, i ddefnyddwyr a busnesau, ble bynnag y maent yn byw ac yn gweithredu yn y pedair gwlad, ac i economi'r DU.

1.7 Mae cylch gorchwyl y CMA yn cwmpasu'r DU i gyd, gyda swyddfeydd yng Nhgaerdydd, Belfast, Caeredin, Llundain a Manceinion, yn ogystal ag Uned Micro-economeg newydd i'w lleoli yn Darlington. Bydd yr Uned Micro-economeg yn dadansoddi ac yn cynnig arbenigedd ar faterion cystadleuaeth yn y DU, hawliau defnyddwyr, arloesi, cynhyrchiant a diwygiadau i'r ochr gyflenwi.

1.8 Rydym yn ymrwymo i fod yn lle gwych i weithio ynddo. Rydym eisiau i'n staff weithio mewn sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella'n barhaus, gan roi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu gyrfa a phrofiad gwaith/bywyd gwych.

1.9 Drwy ein model gweithredu hybrid, rydym am i bawb gael ymdeimlad cryf o berthyn a chysylltedd gyda CMA sy'n fodern, yn wydn ac yn flaengar. Rydym yn ymwreiddio diwylliant a ffyrdd o weithio sy'n adlewyrchu ein presenoldeb ledled y DU ac sy'n ein galluogi i wneud ein gwaith gorau a byw bywydau

cytbwys ac iach, a hynny i gyd ar sylfaen o gynwysoldeb a pharch. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i ddenu a chadw pobl ddawnus mewn marchnad lafur gystadleuol.

1.10 Mae'r CMA yn benderfynol o feithrin gweithlu amrywiol a chynhwysol, gan gynnwys ar lefelau uwch, sy'n adlewyrchu ac yn deall y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu. Mae amrywiaeth o brofiadau a safbwyntiau hefyd yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r allbynnau gorau posibl ac yn rhywbeth rydym yn bwriadu ei feithrin ymhellach yn ein gweithlu. Rydym wedi nodi hil ac anabledd fel meysydd y mae angen eu blaenoriaethu yn y CMA ac rydym wedi sefydlu cylluniau gweithredu dynodedig i bob un o'r rhain. Ond mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ddyfnach ac yn ehangach na hyn. Dyna pam y mae ein Cynlluniau Gweithredu ar Hil ac Anabledd yn rhan o strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant pedair blynedd ehangach.

1.11 Rydym yn gwneud cynnydd i gyflawni set dargedig o gamau gweithredu yn ein Cynllun Gweithredu cyntaf ar Anabledd, sy'n gyson â'r Strategaeth Anabledd Genedlaethol a Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth Sifil. Mae hyn yn sicrhau bod gennym gynlluniau y mae modd eu cyflawni i barhau i helpu cydweithwyr anabl i gamu ymlaen yn eu gyrfa a chael cyfleoedd.

1.12 Fel rhan o'n Cynllun Gweithredu ar Hil, rydym wedi gwneud cynnydd cadarn i helpu pobl o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol i gamu ymlaen yn eu gyrfa gyda rhaglenni datblygu sgiliau targedig, cynnig nawdd a chyfleoedd mentora ar y cyd.

1.13 Er i ni wneud cynnydd sylweddol, mewn perthynas â'n Cynlluniau Gweithredu ar Hil ac Anabledd ac mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar raddfa ehangach, rydym yn cydnabod bod mwy y gallwn ac y mae'n rhaid i ni ei wneud i sicrhau gweithlu cwbl gynrychioladol gyda chyfle cyfartal i bawb.

## 2. Llunio CMA y dyfodol


2.1 Amlinellodd y CMA ei weledigaeth, ei werthoedd a'i strategaeth gychwynnol mewn dogfen pan gafodd ei sefydlu yn 2014, pan dderbyniodd swyddogaethau'r Swyddfa Masnachu Teg a'r Comisiwn Cystadleuaeth. Esboniodd y ddogfen honno sut roedd y sefydliad newydd yn bwriadu cyflawni ei brif ddyletswydd, sef 'seek to promote competition, both within and outside the United Kingdom, for the benefit of consumers'. Amlinellodd uchelgais gyffredinol y CMA, sef 'consistently be one of the leading competition and consumer agencies in the world' a'i genhadaeth '[to] make markets work well in the interests of consumers, businesses and the economy'. Felly, roedd angen i'r ddogfen honno ganolbwyntio i raddau sylweddol ar faterion a oedd yn gysylltiedig â sefydlu model gweithredu a diwylliant y CMA newydd.

2.2 Wrth gwrs, cafwyd datblygiadau sylweddol ers 2014. Mae'r cyd-destun macro-economaidd, technolegol, amgylcheddol a defnyddwyr y mae'r CMA yn gweithredu ynddo wedi newid yn sylweddol. Yn fewnol, mae'r CMA wedi aeddfedu fel sefydliad ac mae hefyd wedi tyfu'n sylweddol o ran cwmpas a graddau ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau. Mae'r cyd-destun hwnnw'n cynnig cyfle da i edrych o'r newydd ar ein strategaeth. Mae penodi Cadeirydd newydd a Phrif Weithredwr Dros Dro yn ddiweddar yn ysgogiad pellach i ymgymryd ag adolygiad o'r fath.

2.3 Rydym yn cyflawni'r adolygiad hwnnw trwy'n rhaglen 'Ffurfio CMA y Dyfodol' i bennu sut y gallwn gael yr effaith gadarnhaol fwyaf dros y tymor canolig a'r tymor agos; a sut mae angen i ni esblygu fel sefydliad er mwyn cyflawni'r effaith honno.

2.4 Fel rhan o'r rhaglen honno, rydym yn cynnig esboniad cliriach a mwy sylweddol o ddiben, uchelgais a blaenoriaethau tymor canolig y CMA dros y cyfnod o 3 blynedd sydd i ddod a'n meysydd ffocws ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Rydym yn crynhoi sut y caiff yr elfennau hyn eu cysylltu yn Ffigur 1.

**Ffigur 1 Cysylltu strategaeth y CMA**





2.5 Ar yr un pryd, rydym yn cynnal adolygiad mewnol o werthoedd y CMA. Datblygwyd y gwerthoedd presennol yn 2014 ac er bod ganddynt berthnasedd parhaol, mae'r cyd-destun wedi newid. Er enghraifft, rydym wedi bod yn rhoi mwy o bwyslais ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Felly, mae'n briodol pwyso a mesur ac addasu gwerthoedd presennol y CMA i adlewyrchu'r diwylliant rydym eisiau ei gynnal a'i ddatblygu yn y dyfodol.

# 3. Diben

3.1 Yn y Cynllun eleni, rydym yn dechrau drwy roi esboniad cliriach o ddiben y CMA: **helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg.**

3.2 Rydym yn rhoi mwy o fanylion ynghylch hyn a'n huchelgais, sy'n llifo'n uniongyrchol o'n diben, yn yr adran ganlynol.

**Ffigur 2 Diben ac uchelgais y CMA**




3.3 Mae dwy elfen allweddol i'n diben:

<u>Pwy rydym yn eu gwasanaethu - **Pobl, busnesau ac economi'r DU:**</u>

- Dylai gwaith y CMA fod er budd pobl, nid yn unig fel defnyddwyr ond hefyd fel trethdalwyr a rhanddeiliaid yn ein cymdeithas.
- Pan fo'r CMA yn gweithredu i sicrhau cystadleuaeth effeithiol neu atal niwed i ddefnyddwyr, mae hyn o fudd i fusnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, sy'n chwarae rôl hanfodol yn economi'r DU a'n bywyd cenedlaethol ehangach.
- Mae gwaith y CMA yn helpu i ysgogi arloesedd, cynhyrchiant a thwf ar draws yr economi ac ym mhob un o 4 gwlad y DU. Er y gall rhai darnau unigol o'n gwaith ganolbwyntio'n uniongyrchol ar grŵp penodol o bobl neu

fusnesau, mae gan ein gwaith fuddiannau ehangach, systemig sy'n bwysig er mwyn cefnogi economi'r DU i gyd.

Sut rydym yn eu gwasanaethu - **Hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg:**

- Fel awdurdod cystadleuaeth y DU, mae hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol yn greiddiol i'n gwaith. Prif ddyletswydd statudol y CMA yw hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr y tu mewn a'r tu allan i'r DU. Rydym yn defnyddio ein pwerau gorfodi o ran y gyfraith cystadleuaeth, cynlluniau uno ac ymchwilio i'r farchnad i sicrhau canlyniadau marchnadoedd cystadleuol. Rydym hefyd yn rhoi cyngor i lunwyr polisi a gwybodaeth i'r cyhoedd er mwyn annog cystadleuaeth effeithiol. Yn ogystal, mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn rhoi cyngor gwrthrychol i 4 llywodraeth y DU o ran rheoli gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.
- Y tu hwnt i hyrwyddo cystadleuaeth, mae swyddogaethau statudol y CMA hefyd yn ymestyn i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed. Mae gan y CMA rolau gorfodi ac eirioli pwysig wrth fynd i'r afael ag ymddygiad annheg a gaiff ei gwmpasu gan ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr. Rydym hefyd yn ystyried yr effeithiau andwyol ar ddefnyddwyr wrth gynnal astudiaethau o farchnadoedd.

# 4. Uchelgais



4.1 Rydym yn mynegi uchelgais y CMA yn nhermau'r canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni i bobl, busnes ac economi gyfan y DU dros y tymor canolig a'r hirdymor. Nodir pob un isod.

**Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg**

4.2 Pan fydd pobl yn prynu nwyddau a gwasanaethau, dylent allu dibynnu ar y broses gystadleuol a bod yn hyderus bod busnesau'n delio â nhw ar delerau teg. Dylai gwaith y CMA sicrhau bod marchnadoedd cystadleuol yn rhoi dewis ac amrywiaeth ac yn ysgogi prisiau is. Byddwn yn defnyddio ein pwerau o dan y gyfraith cystadleuaeth a'r gyfraith defnyddwyr – ynghyd â'n rôl eirioli i roi cyngor i lywodraeth a'n hymgyrchoedd sy'n targedu'r cyhoedd – i sicrhau y caiff pobl eu grymuso i wneud y dewisiadau iawn iddynt hwy.

**Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu**

4.3 Mewn marchnad sy'n gweithredu'n effeithiol, dylai'r busnesau sy'n cynhyrchu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau mwyaf arloesol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr orau allu ffynnu, gyda buddiannau ehangach i'r economi a chymdeithas. Dylai camau gweithredu'r CMA rymuso busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, i gystadlu, gan gynnwys trwy fynd i'r afael ag ymddygiad lleiafrif bach o fusnesau sy'n ceisio niweidio defnyddwyr, cyfyngu ar gystadleuaeth neu atal marchnadoedd rhag gweithredu'n gywir.

**Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy**

4.4 Dylai gwaith y CMA i hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg gefnogi cynhyrchiant, arloesedd a thwf yn economi gyfan y DU. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod cystadleuaeth yn cefnogi economi gadarn a all dyfu'n gynaliadwy. Dylai ein gwaith ysgogi buddiannau ym mhob un o 4 gwlad y DU.

4.5 Mae Senedd y DU hefyd wedi rhoi cyfrifoldebau penodol i ni fonitro ac adrodd ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Cyflawnir y cyfrifoldeb hwnnw trwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol, sy'n rhan o'r CMA. Ar wahân i hynny, o 4 Ionawr 2023, bydd ein Huned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn rhoi cyngor i awdurdodau cyhoeddus pan fyddant yn rhoi cymorthdaliadau sydd â'r potensial mwyaf i arwain at effeithiau gwyrdroëdig ar gystadleuaeth a buddsoddiad.

# 5. Blaenoriaethau Tymor Canolig



5.1 Er mwyn cyflawni ein Diben a'n Huchelgais, rydym yn cynnig blaenoriaethau tymor canolig sy'n gysylltiedig â'r tri chanlyniad strategol a amlinellir yn ein huchelgais. Mae'r rhain yn ymestyn dros gyfnod o 3 blynedd ac yn eu tro, byddant yn llywio'r meysydd ffocws penodol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rydym yn crynhoi ein blaenoriaethau tymor canolig arfaethedig yn Ffigur 3.

**Ffigur 3** Blaenoriaethau tymor canolig arfaethedig

**Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg**

- Canolbwyntio'n gyson ar weithredu yn y meysydd lle mae defnyddwyr yn gwario'r rhan fwyaf o'u harian ac yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser, yn enwedig i'r bobl sydd angen help fwyaf.
- Diogelu pobl rhag arferion niweidiol
- Atal ymddygiad gwrthgystadleuol mewn ffordd bendant

**Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu**

- Galluogi busnesau arloesol i gael mynediad agored i farchnadoedd
- Helpu sectorau sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu'n farchnadoedd twf uchel, arloesol a chystadleuol

**Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy**

- Helpu i gyflymu newid y DU i economi sero net.
- Blaenoriaethu sectorau sy'n cynnig y potensial mwyaf i gael effaith ar arloesedd a chynhyrchiant
- Hyrwyddo cadernid drwy gystadleuaeth

5.2 Bydd y blaenoriaethau hyn yn llywio'r gweithgareddau lle mae gennym rywfaint o ddisgresiwn dros y gwaith a wnawn yn bennaf, fel gorfodi'r gyfraith cystadleuaeth a'r gyfraith defnyddwyr, astudiaethau ac ymchwiliadau marchnadoedd a'n gwaith eiriolaeth[6].

5.3 O fewn y blaenoriaethau, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch pryd a sut i weithredu, byddwn yn cymhwyso'r gofynion sylfaenol canlynol.

**Gofynion sylfaenol**

Byddwn yn herio ein hunain i sicrhau bod ein gwaith yn gwneud y canlynol:

- Yn cyflawni buddiannau gwirioneddol, amlwg

[6] O ran rheoli camau uno, mae ein llwyth achosion yn dibynnu'n bennaf ar yr uniadau a gyhoeddir mewn cyfnod penodol.

- Yn cael ei gyflawni cyn gynted â phosibl, yn gyson â thrylwyrdeb a thegwch gweithdrefnol
- Yn defnyddio ein pecyn adnoddau i gyd

Ceir mwy o fanylion am bob blaenoriaeth tymor canolig, a'r gofynion sylfaenol, isod.

**Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a**

**<u>Canolbwyntio'n gyson ar weithredu o fewn meysydd craidd gwariant ac amser defnyddwyr, yn enwedig i bobl sydd angen help fwyaf</u>**

5.4 Mae'r CMA am sicrhau effaith wirioneddol i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Felly, mae'n bwysig ein bod yn weithgar yn y meysydd sydd bwysicaf i bobl, fel:

- Cael rhywle i fyw
- Bwydo ein hunain a'n teuluoedd
- Symud o gwmpas a theithio
- Dysgu, chwarae a chymdeithasu
- Gofalu am ein hunain ac am eraill.

5.5 Byddwn yn rhoi ystyriaeth benodol i'r defnyddwyr hynny sydd angen help fwyaf. Gall pobl fod yn agored i niwed mewn cyd-destunau penodol ac mewn ffyrdd gwahanol. Wrth dargedu ein hymyriadau, byddwn felly'n ystyried y cyd-destun penodol y gall fod angen help arbennig ar bobl i'w diogelu rhag niwed a chael bargen deg.

**<u>Diogelu pobl rhag arferion niweidiol</u>**

5.6 Byddwn yn defnyddio ein pwerau o dan y gyfraith cystadleuaeth a'r gyfraith defnyddwyr i ddiogelu pobl rhag arferion busnes niweidiol. Mae hyn o fudd uniongyrchol i bobl ond mae hefyd o fudd i'r busnesau hynny sy'n gwneud y peth iawn, ac na ddylent wynebu anfantais gystadleuol o ganlyniad i hynny.

**<u>Atal ymddygiad gwrthgystadleuol mewn ffordd bendant</u>**

5.7 Rhaid i ni hefyd gymryd camau yn erbyn busnesau sy'n torri cyfraith cystadleuaeth. Mae angen y camau hynny nid yn unig i fynd i'r afael â'r tramgwydd dan sylw ond hefyd er mwyn helpu i atal busnesau a allai gael eu temtio i dorri'r gyfraith fel arall. Yn y pen draw, mae'r camau hynny o fudd i bobl ar ffurf prisiau is a dewisiadau gwell.

**Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu**

**<u>Galluogi busnesau arloesol i gael mynediad agored i farchnadoedd</u>**

5.8 Mae cystadleuaeth trwy arloesedd yn cymell cynhyrchiant a dewis gwell i gwsmeriaid. Byddwn yn cymryd camau mewn marchnadoedd sefydledig a

rhai sy'n dod i'r amlwg i sicrhau y gall busnesau arloesol gael mynediad effeithiol i'r farchnad er mwyn ysgogi'r broses gystadleuol honno.

**Helpu sectorau sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu'n farchnadoedd twf uchel, arloesol a chystadleuol**

5.9 Weithiau, gall y CMA fod yn fwy effeithiol pan fyddwn yn ymyrryd yn gynnar yn natblygiad marchnad. Yn yr achosion hynny, gallwn helpu i sicrhau bod y farchnad yn datblygu mewn ffordd gystadleuol. Gallwn wneud hynny mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys eiriolaeth ac astudiaethau o farchnadoedd.

**Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy**

**Helpu i gyflymu newid y DU i economi sero net.**

5.10 Bydd y CMA yn parhau i gymryd camau i gyflymu'r newid i economi sero net a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol. Rydym eisoes wedi cyhoeddi cyngor i Lywodraeth y DU ar sut y gall cyfreithiau cystadleuaeth a defnyddwyr helpu i gyflawni nodau amgylcheddol y DU, ac wedi cyhoeddi cynllun i greu Tasglu Cynaliadwyedd, sydd bellach yn weithredol ac yn arwain ein gwaith yn y maes hwn drwy ddwyn ynghyd gydweithwyr o bob rhan o'r CMA, gan ddefnyddio arbenigedd allanol hefyd.

**Blaenoriaethu sectorau sy'n cynnig y potensial mwyaf i wella arloesedd a chynhyrchiant**

5.11 Wrth ystyried beth arall y gallwn ei wneud i gefnogi twf economi'r DU, bydd y CMA yn blaenoriaethu camau mewn sectorau a all gael effaith hynod gadarnhaol ar arloesedd a chynhyrchiant - er enghraifft:

- marchnadoedd sydd ar gam cynnar yn eu datblygiad ond sydd â'r potensial i dyfu'n sylweddol; a'r
- marchnadoedd sy'n ymddangos fel pe bai ganddynt fylchau cynhyrchiant sylweddol a lle mae'r gystadleuaeth yn ymddangos yn dawel.

**Hyrwyddo cadernid drwy gystadleuaeth**

5.12 Bydd y CMA hefyd yn cymryd camau i hyrwyddo cadernid economaidd dros y tymor canolig. Ein man cychwyn yw bod cystadleuaeth effeithiol yn chwarae rôl hanfodol wrth liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â dibynnu gormod ar nifer cyfyngedig o gyflenwyr mewn marchnad benodol, trwy gefnogi cyflenwad lluosog. Byddwn yn effro i farchnadoedd strategol bwysig lle nad yw'r gystadleuaeth yn gweithredu'n gywir o bosibl, sy'n arwain at risg o doriad yng nghyflenwad nwyddau a gwasanaethau hanfodol.

## Gofynion sylfaenol

**Cyflawni buddiannau gwirioneddol, amlwg**

5.13 Rhaid i waith y CMA gyflawni buddiannau gwirioneddol, amlwg i bobl, busnesau ac economi gyfan y DU.

**Gweithio mor gyflym â phosibl, yn gyson â thrylwyrdeb a thegwch gweithdrefnol**

5.14 Yn aml, mae angen gweithredu'n gyflym i gyflawni canlyniadau llwyddiannus. Bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol wrth i ni ddewis pryd a sut i weithredu, gan gydnabod wrth gwrs bod angen i ni gydymffurfio â'r drefn briodol wrth ddefnyddio ein pwerau ffurfiol.

**Defnyddio ein pecyn adnoddau i gyd**

5.15 Gall y CMA weithredu gan ddefnyddio amrywiaeth o bwerau ffurfiol. Gallwn hefyd ymyrryd yn fwy anffurfiol, er enghraifft drwy eiriolaeth, ymgysylltu anffurfiol ac ymgyrchoedd gwybodaeth. Ein man cychwyn yw ystyried mater penodol cyn penderfynu ar yr adnodd mwyaf priodol.

## Galluogwyr craidd

5.16 Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn effeithiol ac yn gyson, bydd yn rhaid i ni barhau i gryfhau a gwella'r ffordd rydym yn gweithio. Rydym wedi nodi 3 galluogydd â blaenoriaeth ar gyfer y 3 blynedd nesaf:

- Addasu ein model busnes
- Meithrin ac atgyfnerthu galluoedd hanfodol
- Uwchraddio ein datganiad gwerth i gyflogeion

**Addasu ein model busnes**

5.17 Er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd, cynigiwn addasu ein model busnes mewn 3 ffordd:

- Ehangu ein defnydd o ddata a deallusrwydd artiffisial i'n holl waith
- Manteisio i'r eithaf ar ecosystem ehangach o arbenigedd a phartneriaid allanol
- Gweithio mewn ffordd fwy hyblyg a dynamig.

**Meithrin ac atgyfnerthu galluoedd hanfodol**

5.18 Cynigiwn feithrin neu atgyfnerthu'r galluoedd hanfodol canlynol:

- Cynnal rhagoriaeth ym 'mhroffesiynau' presennol y CMA
- Mynd ati i ddatblygu ein galluoedd digidol, deallusrwydd artiffisial a thechnoleg ymhellach
- Cryfhau ein galluoedd wrth ddylunio a gweithredu rhwymedïau ex ante
- Cryfhau ein galluoedd sganio'r gorwel ac eirioli.

**Uwchraddio ein datganiad gwerth i gyflogeion**

5.19 Staff dawnus y CMA yw sail ein llwyddiant. Yn gyffredinol, ni all y CMA roi'r un cyflogau a gynigir gan fusnesau'r sector preifat sy'n recriwtio o'r un gronfa o staff, felly mae darparu profiad ansawdd uchel i gyflogeion a datganiad gwerth sy'n ystyried ffactorau y tu hwnt i gyflog yn hollbwysig. Cynigiwn flaenoriaethu'r camau canlynol yn benodol:

- Darparu cyfleoedd unigryw i'n staff gael effaith wirioneddol drwy'r gwaith a wneir ganddynt
- Gwella ein prentisiaethau, ein cynllun i raddedigion a chyfleoedd dysgu a datblygu eraill
- Grymuso cyflogeion i gyfrannu at ganlyniadau a'u cyflawni
- Sicrhau amgylchedd amrywiol, cynhwysol a pharchus
- Darparu amgylchedd gweithio hyblyg sy'n addasu i nodau personol.

**Cysylltu ein blaenoriaethau a'n meysydd ffocws ag 'egwyddorion blaenoriaethu' cyfredol y CMA**

5.20 Ar ôl yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn adolygu'r 'egwyddorion blaenoriaethu' presennol y mae'r CMA yn eu defnyddio ar hyn o bryd i lywio ei ddewisiadau a'i ddetholiad o achosion, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r uchelgais newydd, y blaenoriaethau tymor canolig a'r meysydd ffocws blynyddol.

## 6. Meysydd Ffocws ar gyfer 2023-24

6.1 Yn yr adran hon, nodwn sut rydym yn bwriadu rhoi ffocws i'n gwaith yn y tymor agos, yn ystod y cyfnod adrodd o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023, wrth i ni weithio i gyflawni ein blaenoriaethau tymor canolig. Rydym yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau pellach mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

6.2 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â grwpiau busnes, sefydliadau defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill fel sefydliadau yn y trydydd sector y tu hwnt i'r ymgynghoriad hwn, a hynny er mwyn datblygu ein meysydd ffocws ymhellach. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda rheoleiddwyr eraill, sefydliadau rhyngwladol a domestig fel Safonau Masnach, Which? a Chyngor Ar Bopeth, ynghyd â sefydliadau busnes fel y CBI a siambrau masnach lleol, er mwyn helpu i gael y ddealltwriaeth orau posibl o'r heriau y mae pobl a busnesau ledled y DU yn eu hwynebu.

6.3 Nid yw'r meysydd ffocws arfaethedig hyn yn gynhwysfawr o reidrwydd. Mae cyfran sylweddol o waith y CMA yn orfodol - er enghraifft, adolygu cynlluniau uno sydd wedi'u cyhoeddi neu wedi'u cwblhau a gweithio ar apeliadau rheoleiddio - a bydd angen i ni hefyd fod yn hyblyg wrth ymateb i ddatblygiadau annisgwyl yn ystod y flwyddyn lle mae angen i ni weithredu er mwyn helpu pobl, busnesau a'r economi.

6.4 Ochr yn ochr â'r ymarfer ymgynghori hwn, bydd y CMA yn parhau i adolygu ei wybodaeth ei hun a'r gwaith tymor agos posibl sydd yn yr arfaeth mewn sectorau ymgeisiol, prosiectau neu achosion sy'n gyson â'n blaenoriaethau tymor canolig.

**Ffigur 4 Meysydd ffocws arfaethedig**

| Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg | Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu | Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy |
|---|---|---|
| • Gweithredu ym meysydd **gwariant hanfodol** a lle mae pobl dan bwysau ariannol penodol, fel llety a gofalu amdanom ein hunain ac am eraill<br>• Mynd i'r afael â phwysau gwerthu ac **arferion prisio ffug neu gamarweiniol**, gan gynnwys trwy saernïaeth dewis ar-lein<br>• **Atal ymddygiad gwrthgystadleuol,** gan gynnwys cartelau ym maes caffael cyhoeddus a meysydd eraill sy'n cael effaith uniongyrchol ar wariant y cyhoedd a'r cartref | • Galluogi **busnesau arloesol i gael mynediad i farchnadoedd digidol** fel porwyr symudol a dosbarthu gwasanaethau gemau cwmwl, e-fasnach a hysbysebion digidol<br>• Annog **cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg** | • Gweithredu mewn marchnadoedd presennol a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer **cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy.** Gwneud gwaith pellach ar hawliadau gwyrdd ac ar effeithlonrwydd ynni<br>• Nodi'r meysydd lle y gallwn gael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar **arloesedd a chynhyrchiant** a gweithredu yn y meysydd hynny, a dylanwadu ar ddatblygiad pro-gystadleuol marchnadoedd<br>• Sicrhau bod **marchnadoedd digidol yn gystadleuol**, gan gynnwys trwy baratoi i gyflwyno pwerau statudol newydd i'r Uned Marchnadoedd Digidol<br>• Nodi risgiau economaidd y mae'r CMA mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â nhw er mwyn cefnogi **cadernid economi'r DU**<br>• Datblygu gwaith Swyddfa'r Farchnad Fewnol ymhellach a sefydlu gwaith yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau |

## Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg

6.5 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflawni buddiannau gwirioneddol i bobl ledled y DU. Er enghraifft, gwnaethom gwblhau astudiaeth o'r farchnad gofal cymdeithasol plant, a wnaeth edrych ar addasrwydd a fforddiadwyedd

lleoliadau mewn cartrefi plant neu ofal maeth i blant. Gwnaethom wneud argymhellion ar gyfer diwygio wrth i lywodraethau ledled y DU ddatblygu eu rhaglenni polisi ehangach ar gyfer gofal cymdeithasol plant.

6.6 Gwnaethom hefyd weithio ar ran pobl a oedd yn defnyddio triniaethau ffrwythlondeb fel IVF a sicrhau newidiadau cadarnhaol gan rai clinigau ar ôl i ni fynegi pryderon am arferion fel methu â darparu gwybodaeth allweddol am brisiau a gwneud honiadau camarweiniol am gyfraddau llwyddo.

6.7 Mewn mannau eraill, rydym yn parhau â'n gwaith ar achosion posibl o 'wyrddgalchu' (h.y. honiadau camarweiniol am nodweddion amgylcheddol cynhyrchion a gwasanaethau) gan rai cwmnïau. Yn hyn o beth, gwnaethom agor ymchwiliad yn gynharach eleni yn dilyn pryderon am yr honiadau eco-gyfeillgar a chynaliadwyedd a wnaed gan ASOS, Boohoo a George at Asda am eu cynhyrchion ffasiwn.

6.8 Rydym wedi bod yn gwneud gwaith sylweddol ar ran pobl gyda chartrefi prydles sy'n dioddef telerau annheg, yn benodol drwy sicrhau bod cymalau dyblu rhent tir yn cael eu tynnu o gontractau prydles a sicrhau ad-daliadau i filoedd o ddeiliaid cartrefi. Yn y dyfodol, rydym yn disgwyl y bydd hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag arferion annheg ar draws y sector llety yn parhau i fod yn faes ffocws dros y 12 mis nesaf.

6.9 Byddwn hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar ofalu amdanom ein hunain ac am eraill, er mwyn siccrhau y gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg, yn enwedig pan fo arian yn brin. Yn ein gwaith presennol, byddwn yn parhau i fynd i'r llys i amddiffyn ein penderfyniadau i gyflwyno dirwyon am arferion gwrthgystadleuol, gan gynnwys prisiau rhy uchel, wrth gyflenwi rhai meddyginiaethau i'r GIG y mae miliynau o bobl yn dibynnu arnynt. Byddwn hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod cleifion darparwyr gofal iechyd preifat yn cael gwybodaeth glir a chyson yn unol â'n Gorchymyn Gofal Iechyd Preifat ac, o ran rheoli cynlluniau uno, byddwn yn sicrhau nad yw sectorau pwysig fel milfeddygon a deintyddion yn destun cynlluniau uno gwrthgystadleuol.

6.10 O ran mynd i'r afael ag arferion ar-lein camarweiniol, rydym yn bwriadu parhau â'n hymgyrch ‘Online Rip-off Tip-off’, a byddwn yn ceisio gwneud gwaith sy'n canolbwyntio mwy ar y maes hwn er mwyn helpu i ddiogelu pobl rhag arferion camfanteisiol, gan gynnwys trwy raglen gwaith gorfodi ar ran defnyddwyr sy'n canolbwyntio ar saernïaeth dewis ar-lein. Nod y gwaith hwn yw mynd i'r afael ag arferion gwerthu ar-lein a allai fod yn niweidiol, gan gynnwys tactegau gwerthu dan bwysau fel honiadau ynghylch cyfyngiadau amser ac arferion eraill a allai fod yn niweidiol a ddefnyddir yn aml ar draws yr economi ar-lein.

6.11 Ar adeg pan fo cyllidebau pobl a chartrefi o dan bwysau penodol, byddwn hefyd yn parhau i weithredu'n llym mewn ymateb i gartelau ac ymddygiad cydgynllwyniol arall sy'n atal cyrff cyhoeddus a chartrefi preifat rhag gwneud y mwyaf o'r gyllideb sydd ar gael iddynt, er enghraifft cytundebau sy'n ceisio cadw prisiau i fyny ym maes caffael cyhoeddus neu ymyrryd mewn marchnadoedd llafur.

**Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu**

6.12 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio i helpu busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg i arloesi a ffynnu. Er enghraifft, yn dilyn ein hasesiad cychwynnol, roeddem yn poeni y gallai bwriad y gwneuthurwr sglodion, NVIDIA, i brynu Arm arwain at golli cystadleuaeth a allai amharu ar arloesedd mewn sawl marchnad, gan gynnwys canolfannau data, gemau cyfrifiadurol, 'rhyngrwyd pethau' a cheir sy'n gyrru eu hunain. Rhoddwyd y gorau i'r cynllun yn gynharach eleni.

6.13 Gwnaethom gwblhau astudiaeth o'r farchnad ecosystemau symudol, gan gasglu bod gan Apple a Google ddeuopoli effeithiol sy'n eu galluogi i dagu'r marchnadoedd hyn. Yn dilyn hyn, rydym wedi agor ymchwiliad i'r farchnad mewn perthynas â'r cyflenwad porwyr symudol a pheiriannau pori a dosbarthu gwasanaethau gemau cwmwl drwy siopau apiau ar ddyfeisiau symudol yn y DU. Mewn man arall yn y gofod digidol, yn dilyn ymchwiliad i gynigion Privacy Sandbox Google, gwnaethom dderbyn ymrwymiadau gan Google ac rydym yn goruchwylio gweithgarwch y cwmni technoleg yn y gofod hwn yn unol â'r ymrwymiadau hynny.

6.14 Byddwn yn parhau â'n hymgyrch i alluogi busnesau arloesol i gael mynediad i farchnadoedd digidol, gan gynnwys cynnal ymchwiliad i Google ynghylch pryderon y gall fod yn defnyddio'i safle o fewn 'ad tech' i ffafrio ei wasanaethau ei hun er anfantais i'w gystadleuwyr a'i gwsmeriaid.

6.15 Yn y flwyddyn nesaf, byddwn hefyd yn rhoi mwy o ffocws ar farchnadoedd sy'n dod i'r amlwg lle gall y CMA roi cyngor neu argymhellion er mwyn helpu i ddatblygu cystadleuaeth effeithiol.

**Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy**

6.16 Mae adroddiad State of Competition diweddar y CMA yn enghraifft o'r gwaith rydym yn ei wneud i lywio trafodaeth gyhoeddus a llunio polisïau yn ymwneud â materion fel yr hyn sy'n sbarduno mwy o gynhyrchiant ac arloesedd.

6.17 Mae gan y CMA rôl barhaus i'w chwarae wrth gefnogi arloesedd, cynhyrchiant a thwf ar draws economi'r DU. Bydd ein Huned Micro-economeg yn Darlington yn ganolfan ddisgyrchiant ar gyfer y gwaith hwn, gan ddatblygu a llunio rhaglen ymchwil a fydd yn arwain at drydydd rhifyn yr adroddiad State of Competition y cyfeiriwyd ato uchod. Bydd yn cefnogi

gwaith ehangach y CMA a llunwyr polisi, gan archwilio meysydd sy'n cynnwys buddsoddi, arloesi a chystadleuaeth. Yn ogystal, byddwn yn parhau â'n gwaith i ddadansoddi sut y gall cystadleuaeth gefnogi cadernid y farchnad ac atal neu fynd i'r afael â thoriadau yn y gadwyn gyflenwi.

6.18 Mae ein gwaith ar gynaliadwyedd amgylcheddol yn cynnwys cynghori Llywodraeth y DU ynghylch sut y gall cyfreithiau cystadleuaeth a defnyddwyr helpu i gyflawni nodau amgylcheddol y DU. Bydd cefnogi newid effeithiol i sero net yn faes ffocws pwysig yn y flwyddyn sydd i ddod. Yn ogystal â pharhau â'n rhaglen waith barhaus i fynd i'r afael â ‘gwyrddgalchu’ posibl, byddwn hefyd yn gwneud gwaith dilynol ar ein galwad am wybodaeth yn y sectorau inswleiddio a gwres gwyrdd. Ar raddfa ehangach, byddwn yn rhoi arweiniad i fusnesau a chymdeithasau diwydiant ar sut y gallant sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith cystadleuaeth pan fyddant yn cydweithio i ddatblygu neu gyflymu'r gwaith o fabwysiadu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy.

6.19 Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd y CMA hefyd yn parhau â'i baratoadau i roi'r gyfundrefn pro-gystadleuaeth statudol arfaethedig ar waith ar gyfer marchnadoedd digidol ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei mabwysiadu. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei chwblhau, yn ogystal â recriwtio staff i gefnogi'r Uned Marchnadoedd Digidol, yn enwedig yn ein swyddfa newydd ym Manceinion.

6.20 Wrth edrych ar ein cyfrifoldebau newydd eraill, bydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn adeiladu ar ei hadroddiadau cyhoeddedig cyntaf (gan gynnwys ein hadroddiad ar effaith gwaharddiad ar werthu mawn yn Lloegr) i ddarparu cyngor arbenigol, annibynnol, dibynadwy i gefnogi masnachu effeithiol rhwng 4 gwlad y DU. Ar ôl cyhoeddi arweiniad yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a lansio'r gyfundrefn cymorthdaliadau domestig newydd ym mis Ionawr 2023, byddwn yn rhoi cyngor annibynnol i awdurdodau cyhoeddus ar eu hasesiadau o'r cymorthdaliadau â'r potensial gwyrdroi mwyaf ac yn cadarnhau ein swyddogaeth monitro.


## 7. Adnoddau ac amser staff

7.1 Fel yn y blynyddoedd a fu, rydym yn disgwyl dechrau 2023/24 gyda swm sylweddol o waith sy'n mynd rhagddo yn barod. Ar adeg ysgrifennu, mae 32 o ymchwiliadau uno (gan gynnwys 5 adolygiad Cam 2), 13 o achosion gorfodi cystadleuaeth, 7 achos diogelu defnyddwyr a 3 astudiaeth o farchnadoedd a 2 ymchwiliad i farchnadoedd ar waith. Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol hefyd yn gweithio ar ei chais cyntaf a disgwylir ei hadroddiadau statudol cyntaf erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Ers mis Ebrill 2022, rydym wedi cyhoeddi 2


benderfyniad ar dorri rheolau, gan gyflwyno dirwyon gwerth £72m, yn ogystal ag un penderfyniad ar ymrwymiadau. Yn ogystal, mae 4 o'n penderfyniadau wedi bod yn destun apêl i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth. Gellir dod o hyd i bob un o'n hachosion yn www.gov.uk/cma-cases.

7.2 Mae Ffigur 5 a Ffigur 6 isod yn dangos sut mae amser staff y CMA wedi'i rannu rhwng gwahanol fathau o waith dros y 2 flynedd ddiwethaf. Mae dosbarthiad amser staff ar gyfer y cyfnod o fis Hydref 2021 i fis Medi 2022 yn cynnwys adnoddau a ddyranwyd i'n swyddogaethau newydd, sef yr Uned Marchnadoedd Digidol, Swyddfa'r Farchnad Fewnol a gwaith paratoi ar gyfer yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau. Mae hefyd yn cynnwys amser a dreuliwyd ar waith Yn Yr Arfaeth, Polisi ac Eiriolaeth.

**Ffigur 5 Dosbarthiad amser staff Hydref 2020-Medi 2021**[7]




**Ffigur 6 Dosbarthiad amser staff Hydref 2021-Medi 2022**




[7] Mae'r niferoedd yn wahanol i'r llynedd, yn dilyn dadansoddiad pellach o'r amser a gofnodwyd ar gyfer ein swyddogaethau newydd.

## 8. Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Uned Marchnadoedd Digidol | Sefydlwyd yr uned hon o fewn y CMA er mwyn dechrau gwaith i roi'r gyfundrefn pro-gystadleuaeth i'r dyfodol ar waith ar gyfer marchnadoedd digidol. |
| Swyddfa'r Farchnad Fewnol | Mae'r Swyddfa yn rhan o'r CMA ac yn cefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Mae'n asesu a yw'r farchnad fewnol yn gweithredu'n effeithiol ac yn rhoi cyngor arbenigol ac annibynnol i lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. |
| Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau | Mae'r Uned yn rhan o'r CMA. Swyddogaeth wedi'i chreu gan y Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau yw hon, sy'n darparu cyfundrefn i lywodraethu'r cymorthdaliadau a ddarperir yn y DU ar ôl iddi adael yr UE. |

E02810474

978-1-5286-3742-8